

## Hysbysiad Preifatrwydd Prosiect Ymchwil

Adolygiad o gymorth i blant sydd wedi'u hatal a'u gwahardd

### 1. Cyflwyniad

Rydym yn cynnal ymchwil ar y cymorth a ddarperir i blant sydd wedi'u hatal neu eu gwahardd o'r ysgol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ymchwil wedi'i gomisiynu gan y Gronfa Waddol Ieuencid (YEF). Y nodau yw deall ysgogwyr cyfraddau atal / gwahardd cynyddol, y gefnogaeth a ddarperir ar hyn o bryd yn ystod / ar ôl atal ac eithrio, y rhwystr i ddarparu'r cymorth hwn, a sut y gellir ei wella. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch data personol os ydych yn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn.

### 2. Manylion cyswllt

Behavioural Insights Ltd (y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol (BIT) yw'r rheolydd data ac mae'n gyfrifol am eich data personol a gesglir mewn cysylltiad â'r prosiect hwn. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gyfrifol am gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel a dim ond ei defnyddio at y dibenion a nodir yn yr hysbysiad hwn.

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data (DPO) sy'n gyfrifol am oruchwylio cwestiynau mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw geisiadau i arfer eich hawliau cyfreithiol mewn perthynas â'ch data personol, cysylltwch â'r DPO a darparu digon o wybodaeth i adnabod eich hun (e.e. eich enw a'ch cyfeiriad):

E-bost: [dpo@bi.team](mailto:dpo@bi.team)

Post: 58 Victoria Embankment Llundain DU EC4Y 0DS

Os ydych chi'n anhapus am sut rydym yn defnyddio'ch data personol neu os oes gennych gŵyn, mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data. Byddem, fodd bynnag, yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio â'ch pryderon cyn i chi fynd at yr ICO felly cysylltwch â ni yn y lle cyntaf.

### 3. Pa ddata personol y byddwn ni'n ei gasglu?

Ymatebwyr yr arolwg sy'n mynegi diddordeb mewn cyfweiliadau

Os byddwch yn mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn cyfweiliad ar ôl cwblhau arolwg, byddwn yn casglu'r data personol canlynol:

- Enw
- Teitl y swydd/rôl
- Math o weithle (awdurdod lleol, ysgol neu leoliad addysg arall)
- Manylion cyswllt (cyfeiriad e-bost)

Sylwch fod y ffurflen hon wedi'i datgysylltu oddi wrth eich ymatebion i'r arolwg; mae'r ffurflen hon yn casglu'ch manylion cyswllt yn unig ac nid yw'n casglu atebion yr arolwg.

**4. Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth rydym ni'n ei chasglu a beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer hyn?**

Y diben yr ydym yn prosesu'ch data personol ar ei gyfer yw cysylltu â chi ynglŷn â chymryd rhan mewn cyfweiliad i drafod y cymorth a ddarperir ar hyn o bryd i blant yn ystod / ar ôl atal ac eithrio, y rhwystrau i ddarparu'r cymorth hwn, a sut y gellir ei wella.

**Sail gyfreithiol**

Mae cyfraith diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael sail gyfreithiol benodol ar gyfer prosesu'ch data personol. Ar gyfer y prosiect hwn, ein sail gyfreithlon fydd:

Buddiant busnes cyfreithlon: Mae gennym fuddiant busnes cyfreithlon mewn cyflwyno'r ymchwil hwn ar gymorth i blant sydd wedi'u hatal ac sydd wedi'u gwahardd yng Nghymru/Lloegr ar ran y Gronfa Waddol Ieuenctid. Mae'r prosiect ymchwil yn cyflawni nodau ein sefydliad gan gynnwys ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, gwerthuso a gwybodaeth arloesol a fydd yn cyflawni effaith gymdeithasol.

**5. Pwy sydd â mynediad at eich gwybodaeth?**

Bydd nifer cyfyngedig o ymchwilwyr a chynghorwyr yn cyrchu eich gwybodaeth yn ein tîm prosiect sy'n gweithio ar y prosiect hwn.

Efallai y byddwn yn rhannu'ch data personol â'r sefydliadau canlynol yr ydym yn cydweithio â nhw fel rhan o'r prosiect hwn:

- **Cronfa Waddol Ieuenctid (YEF):** Cyllidwr
- **Clearview Research:** partner

Yn ogystal, gallwn ddatgelu'ch gwybodaeth i drydydd partiön mewn cysylltiad â dibenion prosesu'ch data personol a nodir yn yr hysbysiad hwn. Gall y trydydd partiön hyn gynnwys:

- cwmnïau eraill yn ein grŵp sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig;
- rheoleiddwyr, cyrff gorfodi'r gyfraith a'r llysoedd, er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol, cynorthwyo gydag ymholiadau rheoleiddiol, a chydweithredu â phrosesau a orfodir gan y llys, gan gynnwys cynnal ymgyfreitha;
- cyflenwyr, cynorthwywyr ymchwil ac isgontractwyr a all brosesu gwybodaeth ar ein rhan e.e. gwasanaethau cwmwl i storio data, gwasanaethau trawsgrifio a llwyfannau arolygon. Gelwir y trydydd partiön hyn yn broseswyr data a phan fyddwn yn eu defnyddio mae gennym delerau a pholisïau a gweithdrefnau cytundebol ar waith i sicrhau bod eich data personol yn cael ei ddiogelu. Nid yw hyn bob amser yn golygu y byddant yn cael mynediad at wybodaeth a fydd yn eich adnabod yn uniongyrchol gan y byddwn yn rhannu data dienw neu ffugenw dim ond lle bynnag y bo modd. Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth bersonol fel y rheolwr; ac
- unrhyw drydydd parti yr ydym yn bwriadu gwerthu neu drosglwyddo rhywfaint neu'r cyfan o'n busnes neu asedau iddo.

Efallai y byddwn hefyd yn datgelu'ch gwybodaeth bersonol os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith, neu i amddiffyn ein hunain neu eraill rhag gweithgareddau anghyfreithlon neu niweidiol, neu fel rhan o ad-drefnu neu ailstrwythuro ein sefydliadau.

**6. Trosglwyddiadau Rhyngwladol**

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## 7. Diogelwch

Rydym yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol ac yn dilyn gweithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i leihau mynediad anawdurdodedig, newid, colli neu ddatgelu'ch gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys storio manylion cyswllt ar wahân i ymatebion arolwg mewn ffolderi prosiect wedi'u hamgryptio gyda mynediad cyfyngedig.

## 8. Cadw Data

Byddwn yn cadw'ch data personol cyhyd ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y gwnaethom eu casglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Pan nad oes angen cadw'ch data personol mwyach, bydd yn cael eu dileu'n ddiogel.

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg bosibl o niwed o ddefnyddio neu ddatgelu'ch data personol heb awdurdod, y dibenion yr ydym yn prosesu'ch data personol ar eu cyfer ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Gan ystyried y ffactorau uchod, ein dyddiad disgwylidig o ddileu'ch data personol yw Hydref 2026.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn cadw set ddata ddiennw (fel na ellir ei chysylltu â chi mwyach) at ddibenion ymchwil neu ystadegol, ac yn yr achos hwnnw efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol heb rybudd pellach i chi.

## 9. Eich hawliau cyfreithiol

O dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol, gan gynnwys hawliau i:

- Ofyn am fynediad at eich data personol: mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol sydd gennym amdanoch chi ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon.
- Gofyn am gywiro'ch data personol: mae hyn yn eich galluogi i gywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi.
- Gofyn am ddileu'ch data personol: mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu dynnu data personol lle nad oes rheswm da i ni barhau i'w brosesu.
- Gwrthwynebu prosesu'ch data personol: er enghraifft, gallwch wrthwynebu lle rydym yn dibynnu ar fuddiant cyfreithlon (neu fuddiant trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu prosesu ar y sail hon gan eich bod yn teimlo ei fod yn effeithio ar eich hawliau a'ch rhyddid sylfaenol.
- Gofyn am gyfyngu ar brosesu'ch data personol: Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu'ch data personol.
- Cludadwyedd data: Pan fo'r prosesu'n digwydd ar sail eich caniatâd neu'ch contract, ac yn cael ei gynnal trwy ddulliau awtomataidd, mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddarparu'ch data personol i chi mewn fformat darllenadwy gan beiriant, neu ei drosglwyddo i reolwr data trydydd parti, lle bo'n dechnegol ymarferol.
- Hawl i dynnu'n ôl caniatâd i brosesu'ch data personol: Mae hyn yn berthnasol lle rydym wedi dibynnu ar ganiatâd i brosesu data personol. Sylwch na fydd tynnu'r caniatâd yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a gynhaliwyd cyn tynnu'ch caniatâd yn ôl.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau a nodir uchod, anfonwch eich cais penodol at y Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd yn adran 2

Mae'n bwysig deall y bydd y graddau y mae'r hawliau hyn yn berthnasol i ymchwil yn amrywio ac y gall eich hawliau gael eu cyfyngu mewn rhai amgylchiadau. Sylwch hefyd mai dim ond yn ystod y cyfnod yr ydym yn cadw gwybodaeth bersonol sy'n eich adnabod y gallwn gydymffurfio â chais i arfer eich hawliau. Os yw data personol wedi'i wneud yn ddienw yn anadferadwy ac wedi dod yn rhan o'r set ddata ymchwil, ni fydd yn bosibl i ni gydymffurfio.

**10. Newidiadau i'r Hysbysiad hwn**

Efallai y byddwn yn newid yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os ydym yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol yn y ffordd yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.